

# Prifysgol Abertawe

## Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN02 - Plastig

<b>Awdur:</b>	Fiona Wheatley
<b>Cymeradwywyd gan:</b>	Fiona Abbott
<b>Dyddiad Adolygu:</b>	09/11/2018

<b>Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN02</b>	
<b>Plastig</b>	
Lleoliad Cynhyrchu	Amrywiol
EWC	20 01 39
Math	Ddim yn Beryglus
Dull Gwaredu	Didoli i'w ailgylchu
Math o Fin/Sach	Bin pedair adran/sach glir



### **Gofynion Dyletswydd Gofal**

Dylai unrhyw fusnes neu gorff cyhoeddus sy'n cynhyrchu deunyddiau gwastraff ddefnyddio'r hierarchaeth gwaredu gwastraff ar gyfer pob ffrwd er mwyn lleihau'r gwastraff a anfonir i safleoedd gwaredu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod pob math o wastraff yn cael ei ddioli a'i waredu drwy'r ffrwd gywir. Felly, ni ddylid anfon gwastraff i'r safle gwastraff dinesig oni bai mai dyma'r dewis olaf.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddioli ei gwastraff cyn ei waredu a chanolbwyntio ar ddioli'r ffrydiau ailgylchu allweddol: caniau, papur, plastig, bwyd a gwydr. Mae didoli deunyddiau cyn eu gwaredu yn gwella ansawdd y cynnyrch ailgylchu a hefyd mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Yn ôl y rheoliadau, rhaid casglu deunyddiau megis papur, metel, plastig a gwydr, ar wahân er mwyn sicrhau ansawdd uchel y deunydd wedi'i ailgylchu.

Er nad yw'r gwastraff hwn yn cael ei ystyried yn beryglus, mae'n ofyniad dan y Rheoliadau Gwastraff Peryglus, ein bod yn didoli gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus a sicrhau bod pob math o wastraff yn cael ei roi yn y dosbarth cywir. Gall cael gwared ar wastraff peryglus yn y modd anghywir, drwy'r ffrwd gwastraff dinesig cyffredinol, arwain at gosbau cyfreithiol ac ariannol, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio.

Mae eitemau plastig sy'n addas i'w hailgylchu'n cynnwys:

	Poteli diodydd swigod/dŵr/ffrwythau/siampŵ glân ayb.
	Poteli llaeth/glanedydd glân; haenen lynu lân; poteli diodydd nad ydynt yn garbonedig glân; tybiau margarîn glân

Sylwer, rhaid glanhau bwyd o eitemau HDPE 2 er mwyn lleihau'r risg y caiff y plastig i'w ailgylchu ei halogi.

## Eitemau

Ni ddylid rhoi plastig glân mewn unrhyw finiau ond y biniau penodol ar gyfer gwastraff plastig (fel rheol yn rhan o finiau gwastraff pedair/dwy adran safonol y Brifysgol). Os yw cyfansoddiad deunydd yn anhysbys, a/neu os yw wedi'i halogi, cysylltwch â'r Tîm Cynaliadwyedd ([estates-waste@abertawe.ac.uk](mailto:estates-waste@abertawe.ac.uk)) am arweiniad a manylion pellach.

Ni ddylid, o dan **unrhyw** amgylchiadau:

- (a) rhoi unrhyw wastraff cyffredinol yn y bin ailgylchu - mae'n halogi'r ffrwd ailgylchu a gall achosi problemau ymhellach yn y gadwyn gyflenwi
- (b) Dylid glanhau pecynnu bwyd plastig lle bynnag y bo modd cyn ei roi yn y bin ailgylchu plastig

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

### Biniau Mewnol


Ni ddylid rhoi plastig mewn unrhyw finiau ond y biniau pedair/dwy adran metel sy'n agor ar y pen. Bydd yr holl finiau wedi'u labelu fel "Plastig" ac yn cynnwys sach bin glir. Ni ddylid defnyddio biniau personol/dan y ddesg mewn swyddfeydd gan nad yw hyn yn annog pobl i ailgylchu.



Ffigwr 1 - Biniau pedair adran mewnol Prifysgol Abertawe

### Storio Allanol

Ni ddylid rhoi plastig mewn unrhyw finiau ond y biniau pedair/dwy adran metel sy'n agor yn y blaen. Bydd yr holl finiau wedi'u labelu fel "Plastig". Ni ddylid rhoi eitemau rhydd mewn unrhyw finiau eraill.



Ffigwr 2: - Biniau pedair adran a biniau contractwyr ar safleoedd Prifysgol Abertawe

Ar ôl iddynt gael eu casglu, bydd sachau bin clir yn cael eu rhoi yn y biniau pwrpasol mwy (a ddarperir gan y contractwr rheoli gwastraff), sydd i'w cael mewn mannau dynodedig ar ystadau'r Brifysgol.

### Costau Gwaredu

Mae'r gost waredu wedi'i chynnwys yn narpariaeth gwasanaeth rheoli gwastraff y Brifysgol; felly, does dim cost uniongyrchol i unigolion/Colegau/Unedau Gwasanaeth Proffesiynol. Serch hynny, gall unigolion leihau costau a chyfrannu at darged y Brifysgol i gyflawni cyfradd o 63% o droi gwastraff yn ynni, neu ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi, drwy sicrhau bod yr holl blastig y gellir ei ailgylchu yn cael ei roi yn y biniau pwrpasol.

### Labelu

Gweler y templed

Am arweiniad pellach, e-bostiwch [estates-waste@abertawe.ac.uk](mailto:estates-waste@abertawe.ac.uk)

